



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL

Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 1 2020 (crynodeb)

Er mwyn cael gwybodaeth am yr effaith ac i allu helpu'r diwydiant trwy'r cyfnod anodd hwn, fe wnaethon ni gynnal arolwg dros y ffôn o fusnesau twristiaeth yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Mawrth 2020

Roedd yr arolwg yn ceisio canfod sut oedd y diwydiant yn ymdopi, ac yn arbennig i weld sut oedd COVID-19 yn effeithio ar archebion a sut oedd busnesau'n paratoi ar ei gyfer.

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn ar y 12fed a 13eg Mawrth gyda 205 o fusnesau twristiaeth yn ymwneud â llety â gwasanaeth, hunanarlwyo, carafanau a gwersylloedd, hosteli, atyniadau, darparwyr gweithgareddau, bwytai, tafarndai a chaffis.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-covid-19-cam-1-2020-crynodeb.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r sefyllfa gyda COVID-19 yn symud yn gyflym iawn, ac mae llawer wedi newid, felly mae canfyddiadau yn yr arolwg hwn yn waelodlin cyn i effeithiau'r achos ddod yn fwy arwyddocaol.

Rhywfaint o effaith, ond ni effeithiwyd ar fwyafrif y busnesau eto

Dywedodd dwy ran o dair (67%) o'r busnesau twristiaeth o Gymru a gyfwelwyd nad oeddent hyd yma wedi profi unrhyw effaith o'r achosion COVID-19, neu ei bod yn rhy gynnar i ddweud.

Ymhlith y trydydd (33%) a oedd wedi profi effaith, roedd yr effeithiau bron bob amser yn negyddol, gan gynnwys canslo archebion (14% o fusnesau) a llai o archebion yn y dyfodol (13% o fusnesau).

Effaith ar refeniw hyd yma

Ymhlith gweithredwyr a welodd effaith o'r achosion ar ymwelwyr hyd yma, roedd y newid cyfartalog mewn refeniw yn golled o oddeutu 14%. Fodd bynnag, pan gafodd ei ail-leoli yn sampl cyfan yr arolwg, roedd y newid cyfartalog mewn refeniw yn golled fras o 2%.

Y golled ganolrif o refeniw ymhlith y rhai a oedd yn gweld effaith ar ymwelwyr adeg y cyfweliad oedd oddeutu £ 1,400. Roedd y ffigurau'n amrywio'n sylweddol rhwng £ 100 a £ 60,000.

Effaith ar farchnadoedd unigol

Ymhlith busnesau a welodd effaith o'r achosion, roedd 53% wedi gweld gostyngiad yn nifer yr archebion o Gymru, roedd gan 38% yr un lefel a 9% wedi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-ffaith-covid-19-cam-1-2020-crynodeb.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cael mwy o archebion o'r farchnad hon.

Dywedodd y mwyafrif (80%) o'r rhai a welodd effaith fod ymwelwyr â Chymru o fannau eraill yn y DU wedi lleihau ers dechrau'r achosion. Dywedodd 11% o fusnesau a welodd effaith fod marchnad y DU wedi cynyddu ar eu cyfer, a 9% wedi gweld yr un lefel.

Ar gyfer pob marchnad dramor lle bo hynny'n berthnasol, nododd mwyafrif y busnesau ostyngiadau.

Mae'r prif heriau o'n blaenau

Ar adeg y cyfweiliad, dywedodd rhai (39%) o fusnesau fod effaith COVID-19 yn y dyfodol yn rhy gynnar i'w ragweld, ond ymhlith y rhai a oedd yn teimlo eu bod yn gwybod pa fath o effaith y byddant yn ei chael, roedd y disgwyliad yn negyddol ar y cyfan. Roedd 36% o fusnesau yn disgwyl effaith 'sylweddol negyddol', ac roedd 18% arall yn disgwyl effaith 'ychydig yn negyddol'.

Gwnaethpwyd y sefyllfa'n fwy ansicr gan y canfyddiad nad oedd dwy ran o dair (66%) o fusnesau yn gwybod a yw unrhyw golledion a wynebant oherwydd COVID-19 wedi'u hyswirio, a dywedodd 29% eu bod yn gwybod na fyddai unrhyw un o'u colledion wedi'u hyswirio.

Fodd bynnag, roedd rhai busnesau yn obeithiol o weld gwelliant mewn twristiaeth ddomestig yn y dyfodol os na fydd pobl o Brydain yn mynd ar eu gwyliau dramor.

Cyswllt

Joanne Corke
Tel: 0300 025 1138

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-covid-19-cam-1-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Email: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Rhif ymchwil gymdeithasol: 29/2020



Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-covid-19-cam-1-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Baromedr Twristiaeth \(Arolwg effaith coronafeirws \(COVID-19\): cam 1 2020 \(crynodeb\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-ffaith-covid-19-cam-1-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-covid-19-cam-1-2020-crynodeb-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).